


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Sir Penfro

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 303A2014

# Ynglŷn ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn wedi'i baratoi ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth 7

Mae'r Cyngor wedi gwella ei ddull o hunanwerthuso ac wedi llunio adolygiad cynhwysfawr o'i berfformiad, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau 12

Mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i hybu gwelliant yn gadarn, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ac wedi tynnu sylw at rai meysydd lle mae angen ystyried trefniadau llywodraethu 13

Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 19

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 20

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro 21

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 23

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Penfro 27

# Adroddiad cryno ac argymhellion

## Crynodeb

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, ac ar waith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Daethom i'r casgliad, yn 2012-13, bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor yn parhau i wella lles ei ddinasyddion, gan gynorthwyo pobl yn effeithiol i fyw'n annibynnol a byw'n iach;
- mae'r Cyngor wedi cyrraedd y targedau cenedlaethol cyfredol ar gyfer gwastraff a gwnaeth gynnydd da o ran lleihau ei ôl troed carbon;
- mae'r Cyngor wedi cymryd camau pendant i sicrhau diwylliant o weithredu'n fwy agored a thryloyw ym maes gwasanaethau addysg, mae wedi cryfhau ei drefniadau diogelu ac wedi gwella'r modd y creffir ar addysg; ac
- mae trefniadau corfforaethol ar waith i sicrhau bod y *Cynllun Iaith Gymraeg* yn cael ei weithredu.

3 Yn ogystal, nodwyd bod y Cyngor wedi gwella ei ddull o hunanwerthuso ac wedi llunio adolygiad cynhwysfawr o'i berfformiad, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau.

4 Yn olaf, cafwyd gennym, yn ystod 2013-14, fod cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i hybu gwelliant yn gadarn, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ac wedi tynnu sylw at rai meysydd lle mae angen ystyried trefniadau llywodraethu. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol;

- mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ariannol clir, ond gallai wella ansawdd y wybodaeth ariannol a ddarperir i'r aelodau, er mwyn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau;

- mae gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer paratoi ei ddatganiadau ariannol, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi nodi un eitem o wariant yng nghyfrifon 2012-13 y mae o'r farn ei bod yn anghyfreithlon; ac

- mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau llywodraethu ac yn annog yr aelodau i chwarae mwy o ran a herio mwy, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi nodi rhai materion penodol ym maes llywodraethu y bydd angen i'r Cyngor eu hystyried.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Argymhellion

6 Nid ydym yn cyflwyno unrhyw argymhellion newydd eleni, ac mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o safbwynt mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae'r cynigion hynny ar gyfer gwella wedi'u nodi yn ein llythyrau asesiad gwella a gyflwynwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyrau hyn ar gael ar ein gwefan: www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan y Mesur, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

# Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau yn ei feysydd blaenoriaeth

## Mae'r Cyngor yn parhau i wella lles ei ddinasyddion, gan gynorthwyo pobl yn effeithiol i fyw'n annibynnol a byw'n iach

11 Mae *Adolygiad Gwelliannau* y Cyngor yn cyflwyno darlun cadarnhaol o gynnydd, ymrwymiad cryf i welliant parhaus a chymorth i hybu lles dinasyddion y sir. Mae'r Cyngor yn cynorthwyo dros 90 y cant o'i gleientiaid sydd dros 65 oed yn y gymuned; dyma'r ganran uchaf yng Nghymru. Mae gwelliannau wedi'u gwneud yn gyffredinol, ac nid yng nghyswllt gwasanaethau i bobl hŷn yn unig. Er enghraifft, mae nifer y bobl sy'n ymweld â chanolfannau hamdden y sir wedi cynyddu, ac mae aelodaeth ymysg pobl iau wedi cynyddu 120 y cant.

12 Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd AGGCC *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013* ac mae'r ddogfen ar gael ar wefan yr arolygiaeth: www.aggcc.org.uk. Caiff canfyddiadau AGGCC eu crynhoi ym mharagraffau 13 i 19.

13 Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yng ngweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol, o safbwynt gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant, er mwyn gweithredu argymhellion ei strategaeth recriwtio a chadw staff ar gyfer gwaith cymdeithasol.

14 Mae gwasanaethau i oedolion yn elwa o'r pwys y mae'r Cyngor yn ei roi ar gynorthwyo pobl yn y gymuned, a pharheir i wneud cynnydd o ran hynny. Mae'r agenda integreiddio rhwng y Cyngor a'r bwrdd iechyd yn allweddol o safbwynt helpu pobl i aros yn annibynnol a sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn y gymuned.

15 Mae gwasanaethau i blant yn parhau i wella a pherfformio'n gyson. Cafwyd buddsoddiad sylweddol, a chymerwyd y camau angenrheidiol i benodi gweithwyr cymdeithasol cymwys i sefydlu ansawdd o ran ymarfer. Er bod newid trefniadaethol wedi parhau i ddigwydd ym maes gwasanaethau i blant, mae perfformiad wedi gwella mewn nifer o feysydd.

16 Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o berfformiad y Cyngor ac mae'n adlewyrchu'n glir y dystiolaeth a ddarparwyd i AGGCC.

17 Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- cynaliadwyedd gwasanaethau wrth sefydlu'r strwythurau rheoli newydd;
- yr angen i sefydlu fframwaith cynaliadwy ar gyfer comisiynu hirdymor;
- cynaliadwyedd gwasanaethau mewn cyfnod anodd o safbwynt ariannol; ac
- yr angen i barhau i gydweithredu'n effeithiol â'r sector iechyd wrth i'r pwysau ar gyllidebau gynyddu.

18 Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd mewn meysydd datblygu a nodwyd y llynedd. Er enghraifft, mae'r system teleofal 'Just Checking' wedi'i phrynu, a bydd yn cael ei threialu a'i gwerthuso er mwyn ymateb i'r angen i ddatblygu gwasanaeth teleofal y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i argymhellion Adolygiad Alder ynghylch gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu. Gwnaed cynnydd hefyd yng nghyswllt gwasanaethau i blant. Mae'r Cyngor yn nodi ei fod bellach wedi

gweithredu trefniadau newydd ar gyfer cynllunio sefydlogrwydd i blant sy'n derbyn gofal. Mae panel sefydlogrwydd yn cwrdd bob mis i fonitro cynlluniau sy'n bodoli eisoes a chadarnhau bod cynlluniau sefydlogrwydd priodol ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n nesáu at eu trydydd adolygiad.

19 Mae AGGCC wedi nodi'r agweddau canlynol ar arfer da:

- Yn rhan o'r broses o weithredu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010, mae cynghorau sir Penfro, Caerfyrddin a Cheredigion a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi datblygu strategaeth wybodaeth ac ymgynghori. Cafodd y strategaeth ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n nodi blaenoriaethau'r bartneriaeth ar gyfer ymgysylltu â gofalwyr.
- Mae'r llythyr newyddion i ofalwyr bellach yn cael ei ddosbarthu mewn adrannau ysbytai, wardiau a fferyllfeydd cymunedol. Mae pecynnau gwybodaeth i ofalwyr wedi cael eu treialu mewn lleoliadau cymunedol a oedd yn cynnwys fferyllfeydd, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd, a bydd y Cyngor yn datblygu hynny ymhellach yn ystod 2013-14.
- Defnyddir timau integredig gyda'r sector iechyd yn y rhaglen *Dechrau'n Deg*, y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd ac ym maes Cymorth i Deuluoedd.
- Gweithredir fframwaith cynhwysfawr ar gyfer sicrhau ansawdd ym maes gwasanaethau i blant.

## Mae'r Cyngor wedi cyrraedd y targedau cenedlaethol cyfredol ar gyfer gwastraff a gwnaeth gynnydd da o ran lleihau ei ôl troed carbon

20 Roedd perfformiad y Cyngor o ran gwastraff yn 2012-13 yn dda, a llwyddodd i fodloni'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwelwyd bod cyfran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi wedi gwella'n gynt na'r cyfartaledd cenedlaethol; roedd y Cyngor yn gydradd 15fed o blith 22 o gynghorau. Gwelwyd bod cyfran y gwastraff trefol a gesglir i'w ailddefnyddio a/neu'i ailgylchu wedi gwella hefyd, a hynny'n gynt na'r cyfartaledd cenedlaethol unwaith eto; llwyddodd y Cyngor i ddringo i'r 11fed safle o blith 22 o gynghorau. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol a sicrhawyd, roedd y ffaith bod y Cyngor wedi rhagori ar y targedau cenedlaethol ar gyfer gwastraff yn fodd hefyd i sicrhau nad oedd yn rhaid iddo dalu cosbau ariannol posibl am fethu â bodloni'r targedau.

21 Mae'r Cyngor wedi parhau i gryfhau ei drefniadau ar gyfer casglu gwastraff, cael gwared arno a'i ailgylchu, gan ystyried adborth gan ddinasyddion. Erbyn hyn, mae bron bob dinesydd yn cael gwasanaeth ar stepen eu drws ar gyfer ailgylchu gwydr a chasglu gwastraff cegin. Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â grwpiau rhanbarthol de-orllewin a de-ddwyrain Cymru i gyflwyno mentrau rhanbarthol newydd, megis y *Rhaglen Safleoedd Treulio Anaerobig a Thrin Gwastraff Gweddilliol*.

22 Mae'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod 2012-13 a chyn hynny wedi sbarduno perfformiad gwell. Mae allyriadau carbon a'r defnydd a wneir o ynni mewn adeiladau annomestig yn parhau i ostwng, gan helpu'r Cyngor i arbed £785,000 mewn costau ynni. Mae'r modd y mae'r Cyngor yn cynllunio ac yn dylunio ei adeiladau ei hun yn hyrwyddo safonau amgylcheddol uchel; er enghraifft, cafodd tair ysgol newydd a enillodd wobrau amgylcheddol eu dylunio'n fewnol gan y Cyngor, ac roedd cynaliadwyedd yn un o nodweddion allweddol y gwaith dylunio. Cymerodd rhagor o ysgolion ran yn y Cynllun Gwobrau Ysgolion Cynaliadwy, ac o ganlyniad llwyddodd rhai ysgolion i godi lefel eu hachrediad.

23 Mae cyfran y gwastraff cartrefi a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi wedi gostwng, ac mae cyfran y gwastraff cartrefi a gaiff ei ailgylchu wedi cynyddu. Mae'r Cyngor wedi nodi meysydd lle mae angen iddo wella ei berfformiad, er enghraifft o safbwynt ymdrin â'r cynnydd yn nifer yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon a'r cynnydd yn y sbwriel a welir wrth ymyl priffyrdd, ac mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Mae'r Cyngor yn deall yn dda y ffactorau sy'n ei rwystro rhag gwella. Mae'n defnyddio'r wybodaeth honno i gyflawni ystod o welliannau y bwriedir iddynt wella effeithlonrwydd gweithredol, a chyflwyno mentrau y bwriedir iddynt annog cartrefi i ailgylchu.

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau pendant i sicrhau diwylliant o weithredu'n fwy agored a thryloyw ym maes gwasanaethau addysg, mae wedi cryfhau ei drefniadau diogelu ac wedi gwella'r modd y creffir ar addysg

24 Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ym mis Hydref 2012, nodwyd bod angen mesurau arbennig ar y Cyngor. Yn dilyn hynny, cytunwyd ar gynllun monitro gydag Estyn a chafodd yr ymweliad monitro cyntaf ei gynnal ym mis Tachwedd 2013. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi canlyniadau'r ymweliad hwnnw:

- Yn ystod yr arolygiad ym mis Hydref 2012 ac yn syth ar ei ôl, cymerodd y Cyngor gamau buan a phendant sy'n golygu bod newid a gwelliant wedi digwydd yn gyflym.
- Gwnaeth y Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r uwch-swyddogion benderfyniadau anodd a sensitif i gael gwared ar y ffactorau a oedd yn rhwystro cynnydd, er mwyn sicrhau'r gwelliant a oedd yn angenrheidiol.
- Cafodd y penderfyniadau hynny eu rhoi ar waith yn ofalus, ac maent yn golygu bod y Gwasanaeth Plant ac Ysgolion wedi'i ailstrwythuro'n gyfan gwbl. Mae tîm rheoli newydd yn cydweithio'n agos fel grŵp cydlynol i sicrhau newid.
- Mae'r Cyngor erbyn hyn yn ymgysylltu'n dda â'r consortia rhanbarthol. Mae trefniadau ar gyfer cydweithio â Chyngor Sir Caerfyrddin wedi cryfhau capasiti'r Cyngor i herio a chefnogi ei ysgolion.

- Mae'r diwylliant o fewn y Cyngor wedi newid yn sylweddol, ac mae hynny'n amlwg yn y dulliau mwy agored a thryloyw o weithredu sydd i'w gweld ym maes gwasanaethau addysg. Caiff gweledigaeth a disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer ei wasanaethau addysg eu cyfleu'n glir i ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r swyddogion a'r aelodau etholedig wedi dangos parodrwydd i weithio'n adeiladol gyda chyrff arolygu, archwilio a rheoleiddio er mwyn nodi diffygion a mynd i'r afael â nhw. Maent yn dangos ymrwymiad cadarn i newid ac awydd i wella ymhellach.

25 O ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed i drefniadau diogelu yn y Cyngor, mae'r Pennaeth Adnoddau Dynol erbyn hyn yn chwarae rôl flaenllaw yng ngweithgor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer llunio canllawiau arfer da ynghylch dulliau diogel o recriwtio, y bydd modd i awdurdodau lleol eraill ledled Cymru eu defnyddio.

26 Mae'r Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion yn cadeirio'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant. Mae hynny'n darparu cyfleoedd defnyddiol i'r awdurdod gymharu ei arferion diogelu ei hun ag arferion awdurdodau eraill ar draws y rhanbarth, drwy waith herio gan gymheiriaid a defnyddio meincnodau.

27 Bu ymweliad monitro arall gan Estyn, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2014, yn adolygu'r cynnydd cyffredinol a wnaed yn erbyn pob un o argymhellion yr arolygiad gwreiddiol. Canlyniad yr arolygiad hwn gan Estyn oedd bod y Cyngor wedi gwneud digon o gynnydd yng nghyswllt yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad ym mis Hydref 2012. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru o'r farn nad oes angen mesurau arbennig ar y Cyngor mwyach, ac mae'n dileu'r angen i wneud rhagor o waith dilynol mewn perthynas â'r Cyngor.

## Mae trefniadau corfforaethol ar waith i sicrhau bod y *Cynllun Iaith Gymraeg* yn cael ei weithredu

28 Cafodd swydd y Comisiynydd ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir y bydd pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

29 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithrediad cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu gwybodaeth bellach yn ôl yr angen.

30 Mae’r Cyngor wedi cwblhau *Strategaeth Sgiliau* Ieithyddol, mae hefyd wedi parhau â’r gwaith o ddadansoddi anghenion dysgu’r staff, ac mae sawl adran wedi ymgymryd â’r gwaith hwnnw erbyn hyn. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl i’r Cyngor adrodd ynghylch nifer y staff sy’n gallu siarad Cymraeg, oherwydd amheuon ynghylch pa mor ddibynadwy yw’r data yn system y gyflogres. Disgwylir i’r Cyngor roi blaenoriaeth i gwblhau’r gwaith hwn er mwyn cael darlun clir o’r sefyllfa. Nid yw’r Cyngor wedi adrodd ynghylch trefniadau i sicrhau bod trydydd partïon yn cydymffurfio â’r cynllun iaith, ond mae wedi cwblhau’r gwaith o sefydlu system sy’n cofnodi dewis iaith ei gwsmeriaid. Mae gweithredu’r *Strategaeth Sgiliau Ieithyddol* yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf.

## Mae'r Cyngor wedi gwella ei ddull o hunanwerthuso ac wedi llunio adolygiad cynhwysfawr o'i berfformiad, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau

31 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o safbwynt adrodd ynghylch gwelliant dan y Mesur, ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddodd y Cyngor ei *Adolygiad Gwelliannau* erbyn y dyddiad cau, sef 31 Hydref 2013. Wrth archwilio'r *Adolygiad Gwelliannau*, canfu'r Archwilydd Cyffredinol ei fod yn gynhwysfawr, yn deg ac yn gytbwys.

32 Ceir tystiolaeth gadarn mewn gwasanaethau ac adrannau i ddangos bod perfformiad yn cael ei fonitro a'i reoli'n weithredol ar lefel penaethiaid gwasanaeth a chyfarwyddwyr. Mae'r cysylltiadau rhwng y cynlluniau gwella gwasanaeth a *Chynllun Gwella* trosfwaol y Cyngor yn symlach eleni. Yn ogystal, mae'r gwaith o werthuso cynnydd wedi bod yn gliriach o lawer, a chafodd y gwasanaethau a'r aelodau eu cynnwys yn y gwaith hwnnw. Erbyn hyn, mae'r Cyngor yn llwyddo'n well o lawer i werthuso'n gyson yr effaith y mae ei weithgarwch yn ei chael ar fywydau dinasyddion, a'r graddau y caiff cynnydd ei wneud tuag at gyflawni'r nodau a'r canlyniadau a fwriadwyd.

33 Mae trefniadau corfforaethol ar gyfer cydlynu perfformiad ac adrodd yn ei gylch wedi cael eu cryfhau ers y llynedd. Yn ogystal, ym mis Mai 2013, cyhoeddodd y Cyngor ei *Fframwaith Rheoli Perfformiad* diwygiedig. Mae'r fframwaith yn rhoi trefniadau ar waith a allai reoli perfformiad y Cyngor a hybu gwelliant yn fwy cadarn a thrylwyr.

34 Mae gan y Cyngor broses sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer cyflwyno adroddiadau, sy'n golygu bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Caiff adroddiadau eu cyflwyno'r un mor fynych i'r pwyllgorau craffu; mae aelodau'r pwyllgorau craffu wedi mynegi safbwyntiau dros y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi arwain at wella'r adroddiadau. Fodd bynnag, mae'r aelodau weithiau'n cael trafferth mynd i'r afael yn llawn â'r wybodaeth oherwydd nad ydynt yn cael eu harwain yn glir gan swyddogion i'r meysydd sy'n peri pryder neu'r meysydd sydd o ddiddordeb.  Gall hynny gyfyngu, ac mae hynny'n cyfyngu, ar yr herio a'r holi sy'n digwydd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ystyried sut i alluogi'r aelodau i wneud defnydd gwell o'r adroddiadau hyn a'r wybodaeth sydd ynddynt.

35 Mae'r Cyngor wedi parhau hefyd i ddefnyddio dull o adrodd ynghylch eithriadau er mwyn tynnu sylw at wasanaethau neu feysydd sy'n tangyflawni. Caiff y meysydd hynny eu trafod ar lefel y Tîm Rheoli Corfforaethol, a chaiff cynllun gweithredu y cytunir arno ei lunio er mwyn unioni perfformiad y meysydd dan sylw. Caiff perfformiad gwael ei ystyried hefyd gan y Cabinet, yn ogystal ag mewn cyfarfodydd ar y cyd rhwng y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae hynny'n helpu i sicrhau bod problemau o ran perfformiad yn cael eu nodi'n gynnar ac y deuir i gytundeb ynghylch unrhyw gamau unioni a gynigir.

36 Llwyddodd y Cyngor i gael grant llawn y Cytundeb Canlyniadau gan Lywodraeth Cymru. Caiff y grant hwn ei roi i gynghorau sy'n gallu darparu tystiolaeth o gynnydd o safbwynt cyflawni canlyniadau ar draws 10 o feysydd a bennir ac y cytunir arnynt â Llywodraeth Cymru. Llwyddodd y Cyngor i gyflawni pob un o'i dargedau, a oedd yn amrywio o dargedau'n ymwneud â hamdden a chaffael i dargedau'n ymwneud â bioamrywiaeth ac amddiffyn oedolion.

## Mae cynlluniau'r Cyngor ar gyfer gwella a'i drefniadau i hybu gwelliant yn gadarn, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi cyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd ac wedi tynnu sylw at rai meysydd lle mae angen ystyried trefniadau llywodraethu

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella dan y Mesur, ac mae wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

37 Mae'r Cyngor yn llunio cynllun gwella amserol sy'n syml ac yn gryno ac sy'n amlinellu'r hyn y mae am ei gyflawni a'r modd y bydd yn gwneud hynny. Mae'r *Cynllun Gwella* yn cysylltu'n dda â'r *Cynllun Integredig Sengl* ac â chynlluniau gwella gwasanaeth y Cyngor. Mae'r Cynllun Gwella mor hygyrch ag sy'n bosibl i'r cyhoedd, defnyddir cyn lleied ag sy'n bosibl o iaith dechnegol ac mae'n osgoi cynnwys manylion diangen. Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth gefndir ddefnyddiol am yr ystod o wasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu ac am eu hyd a'u lled, ac mae hynny'n hybu ymwybyddiaeth o ehangder y gweithgareddau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio crynodeb byr o'r *Cynllun Gwella* fel cyhoeddiad ychwanegol defnyddiol i ddinasyddion.

38 Nododd y Cyngor bump o amcanion gwella, sy'n llai na'r wyth a nodwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae rhychwant y pum amcan yn llai eang eleni, sy'n golygu y ceir ffocws cliriach ar flaenoriaethau uniongyrchol y Cyngor. Esbonnir yn glir ar ba sail y dewiswyd yr amcanion hyn, gan gynnwys i ba raddau y cawsant eu llywio gan waith ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi ymgynghori ag ystod o randdeiliaid, ond mae wedi llunio rhai rhagdybiaethau ynglŷn â phobl â nodweddion gwarchodedig. Oherwydd hynny, gallai'r Cyngor wneud mwy i ymgysylltu â'r grwpiau hyn yn y dyfodol. Mae pob un o'r pum amcan yn cyd-fynd yn uniongyrchol â themâu'r *Cynllun Integredig Sengl* sy'n disodli'r *Cynllun Cymunedol*. Mae'r ffaith bod yr amcanion yn parhau i gyd-fynd â themâu'r Cynllun yn hybu agenda barhaus y Cyngor, sef sicrhau gwelliant parhaus ar draws pob gwasanaeth.

39 Eleni, mae'r Cyngor wedi disgrifio'n well y cyfraniad y dylai ei bartneriaid ei wneud at gyflawni ei amcanion gwella. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymestyn y naratif er mwyn cyfeirio at weithgarwch gwella arall y bydd yn ei gyflawni yn rhan o'i ddyletswydd gyffredinol i wella, sy'n helpu'r darllenwyr i ddeall y cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo a'i rwymedigaethau ehangach o ran gwella. Mae'r cynllun a'r crynodeb wedi'u cyhoeddi'n ddwyieithog yn unol â *Chynllun Iaith Gymraeg* y Cyngor.

### Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

40 Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â phob un o'n cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn perthynas â'i *Gynllun Gwella a'i Adolygiad Gwelliannau*, ac mae'n gwneud cynnydd cyson mewn perthynas â'r cynigion a wnaed drwy ein hadolygiadau thematig ym maes technoleg, rheoli gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

41 Mae'r Cyngor wedi cryfhau prosesau Adnoddau Dynol sy'n ymwneud ag ymdrin â honiadau ynghylch diogelu. Mae'r Cyngor wedi diwygio a chryfhau'n sylweddol ei brosesau ar gyfer cofnodi a chynnal gwybodaeth sy'n ymwneud â honiadau ynghylch camdriniaeth broffesiynol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys penodi un ymgynghorydd Adnoddau Dynol i reoli'r elfennau Adnoddau Dynol sy'n perthyn i bob cyfarfod strategaeth ynghylch camdriniaeth broffesiynol, ac nid i'r cyfarfodydd sy'n ymwneud â digwyddiadau ym maes addysg yn unig. Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno ffurflen ddiogel ddiwygiedig yn ei system electronig ym maes Adnoddau Dynol ar gyfer cofnodi pob cam sy'n perthyn i'r broses ymchwilio. Mae'r ffurflen ddiogel hon yn galluogi'r ymgynghorydd Adnoddau Dynol i weld yn fuan ac yn hawdd beth yw sefyllfa bresennol pob achos. Mae'r ffurflen hefyd yn cynnwys y cyfeiriadau sy'n ofynnol i amlygu gwybodaeth sy'n bodoli mewn systemau eraill megis y system a ddefnyddir gan wasanaethau cymdeithasol.

42 Er ein bod yn cydnabod bod ystod dda o wiriadau ar waith yn y system Adnoddau Dynol, bu i ni gynnig y dylai'r Cyngor gynyddu'r defnydd a wneir o hysbysiadau a gynhyrchir gan systemau, er mwyn lleihau'r posibilrwydd y gallai gwallau gan bobl arwain at gamgymeriadau. Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i'r cynnig hwn a chymerodd gamau i sicrhau bod y system TG yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o gadw prosesau'n ddiogel.

## Mae'r Cyngor wedi datblygu cynlluniau ariannol clir, ond gallai wella ansawdd y wybodaeth ariannol a ddarperir i'r aelodau, er mwyn cryfhau'r broses o wneud penderfyniadau

43 Ar gyfer 2012-13 pennodd y Cyngor gyllideb ar sail gwariant net o £198 miliwn, a rhagwelwyd y byddai cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac y gellid eu defnyddio o ran cyfalaf a refeniw, erbyn diwedd y flwyddyn, yn cynnwys tua £35 miliwn. Cadarnhaodd adroddiadau ynghylch y sefyllfa derfynol, a gafodd eu cynnwys yn natganiadau ariannol 2012-13, fod gwariant gwerth £198 miliwn yn cyd-fynd â'r gyllideb a bod y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi cynyddu i £50 miliwn. Roedd sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn yn adlewyrchu cynnydd, yn erbyn y lefelau a ragwelwyd, o £4.5 miliwn yng nghyswllt *Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*, £2.5 miliwn yng nghyswllt y cronfeydd wrth gefn ar gyfer cerbydau a pheiriannau a £1.6 miliwn yng nghyswllt cronfeydd cyfalaf wrth gefn y gronfa gyffredinol. Yn ogystal, cafodd £6.0 miliwn ei drosglwyddo o'r ddarpariaeth ar gyfer cyflogau a graddio i gronfa wrth gefn a glustnodwyd.

44 Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2013-14) pennodd y Cyngor ofyniad o £212 miliwn o ran y gyllideb, ar sail y disgwyliad y byddai lefelau'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfateb i £42 miliwn (ond nid oedd hynny'n cynnwys y gronfa wrth gefn ar gyfer cyflogau a graddio). Mae adroddiad monitro ariannol mis 9 (dri chwarter ffordd drwy'r flwyddyn) yn dangos gwariant o £157 miliwn, sy'n cyfateb i 74 y cant o'r flwyddyn

Iawn. Felly, mae'r Cyngor ar y trywydd iawn i wireddu'r gwariant a gyllidebwyd ganddo ar gyfer eleni.

45 Mae llythyr blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cadarnhau, yn dilyn ei adolygiad o reolaeth ariannol, bod gan y Cyngor broses glir ar gyfer pennu'r gyllideb ac ymgysylltu â'r aelodau drwy weithdai a thrwy drafodaethau mewn pwyllgorau craffu. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd hefyd o ran y modd y cyflwynir adroddiadau ar yr un pryd i'r aelodau ynghylch gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am berfformiad, er bod cyfleoedd yn bodoli o hyd i gysylltu'r ddau adroddiad â'i gilydd er mwyn dangos yn gliriach yr effaith y gallai newidiadau o ran perfformiad (o safbwynt lefelau gweithgarwch o'u cymharu â'r targedau) ei chael ar y sefyllfa ariannol yr adroddir yn ei chylch.

46 Yn ogystal, byddai cyflwyno adroddiadau'n fwy rheolaidd ynghylch y modd y caiff arian wrth gefn ei symud a'i ddefnyddio, yn enwedig pan gaiff newidiadau sylweddol eu gwneud i gronfeydd wrth gefn ar ôl cau datganiadau ariannol y flwyddyn flaenorol, yn galluogi'r aelodau i wneud penderfyniadau mwy deallus.

47 Wrth gymeradwyo ei gyllideb ar gyfer 2014-15 ym mis Mawrth 2014, bu'r Cyngor hefyd yn ystyried *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* ar gyfer y cyfnod rhwng 2014-15 a 2015-16. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cyngor wedi sicrhau arbedion a oedd yn werth tua £8.0 miliwn yn ystod y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2010-11 a 2013-14. Yn ogystal, nododd darged o £12.9 miliwn ar gyfer lleihau costau yn 2014-15 a tharged ychwanegol o £7.1 miliwn ar gyfer 2015-16.

48 Mae'r prif darged o £12.9 miliwn ar gyfer lleihau costau yn 2014-15 yn seiliedig ar yr angen i'r Cyngor ariannu'r cynnydd o £6.8 miliwn a nodwyd yng nghostau'r gyllideb, ynghyd â gostyngiad o £6.1 miliwn yn y grant cynnal refeniw. Er mwyn ymateb i hynny, mae'r Cyngor wedi nodi gostyngiadau gwerth £11.4 miliwn o ran costau, a bydd yn ariannu'r swm sy'n weddill, sef £1.5 miliwn, drwy gynyddu'r dreth gyngor.

49 Ar hyn o bryd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio iechyd ariannol awdurdodau, a'u dulliau o gyllidebu a chyflawni'r arbedion gofynnol, er mwyn darparu sicrwydd bod awdurdodau'n gydnerth yn ariannol. Bydd y gwaith hwn yn ystyried a oes gan awdurdodau ddulliau gweithredu cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau y maent yn eu hwynebu yn eu cyllidebau, er mwyn sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 ac ar gyflawni cyllidebau 2013-14. Bydd yr adolygiad yn cael ei gwblhau'n gynnar yn 2014-15, a byddwn yn cyhoeddi'r canfyddiadau yn ystod ein cylch nesaf o waith asesu gwelliant.

## Mae gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer paratoi ei ddatganiadau ariannol, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi nodi un eitem o wariant yng nghyfrifon 2012-13 y mae o'r farn ei bod yn anghyfreithlon

50 Cafodd y datganiadau ariannol 2012-13 eu hail-gymeradwyo gan Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ar 28 Ebrill 2014 a chyhoeddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn archwilio ar 8 Mai 2014.

51 Yn ei *Lythyr Archwilio Blynyddol* (a ddangosir yn Atodiad 3), mae'n nodi fel a ganlyn:

- cadarnhaodd ei archwiliad o'r datganiadau ariannol fod gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer cau'r cyfriflyfr ariannol a pharatoi'r datganiadau ariannol; a
- llwyddwyd hefyd i ymgysylltu'n gadarnhaol iawn â'r Pwyllgor Archwilio sydd newydd gael ei sefydlu, wrth iddo ddatblygu ei ddealltwriaeth a'i rôl yn ystod y flwyddyn.

52 Roedd yr adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Penodedig ym mis Ionawr 2014 yn nodi ei farn bod penderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Uwch Staff y Cyngor ym mis Medi 2011 (sef caniatáu i uwch staff ddewis cael swm cyfwerth â chyfraniad pensiwn y cyflogwr, ar ffurf ychwanegiad at gyflog i bob pwrpas, pe baent yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) yn anghyfreithlon. O ganlyniad, gwnaed taliad yn 2012-13 a chafodd ei gynnwys fel gwariant yn y datganiadau ariannol, a oedd yn 'groes i'r gyfraith'.

53 Bu'r Cyngor yn ystyried yr adroddiad er budd y cyhoedd mewn cyfarfod eithriadol o'r Cyngor ar 14 Chwefror 2014 a derbyniodd yr argymhellion (gan gydnabod bod tynnu'r opsiwn ar gyfer uwch staff yn ôl ac atal unrhyw daliadau yn y dyfodol yn arwain at broblemau'n ymwneud â chontractau).

## Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau llywodraethu ac yn annog yr aelodau i chwarae mwy o ran a herio mwy, ond mae'r Archwilydd Penodedig wedi nodi rhai materion penodol ym maes llywodraethu y bydd angen i'r Cyngor eu hystyried

54 Yn dilyn adroddiadau beirniadol yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i'r Cyngor lunio cynllun gweithredu a oedd yn amlinellu'r gweithgarwch yr oedd yn bwriadu ymgymryd ag ef er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed, a chytuno â'r Archwilydd Cyffredinol ar y cynllun gweithredu hwnnw. Yn ogystal â'r cynllun gweithredu dan sylw aeth y Cyngor ati, gan gydnabod pwysigrwydd pryderon y rheoleiddwyr, i greu a mabwysiadu amcan gwella ar gyfer 2012-13 a oedd yn rhwym wrth derfyn amser. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o safbwynt mynd i'r afael â'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

55 Mae'r Cyngor wedi creu tîm cymorth penodol ar gyfer hybu Partneriaeth a Chraffu. Mae'r tîm hwn wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn ac mae wedi sicrhau bod pwyllgorau craffu'r Cyngor yn cael ystod o gymorth effeithiol, gan gynnwys cymorth ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd y pwyllgorau a chymorth ar gyfer gweithgarwch gorchwyl a gorffen. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu'r blaenraglenni gwaith craffu fel bod

cysylltiadau cliriach rhyngddynt a rhaglenni gwaith grwpiau uwch eraill y Cyngor, megis y Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

56 Cymerodd y Cyngor ran yn adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o waith craffu, a bu modd iddo arsylwi swyddogaeth graffu cynghorau eraill. Cynhaliodd y Cyngor sesiwn 'hunanasesu' gyda chadeiryddion y pwyllgorau craffu, yr is-gadeiryddion a'r cyfarwyddwyr. Nododd y sesiwn hunanasesu nifer o newidiadau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn, a thynnodd sylw at rai meysydd i'w datblygu ymhellach.

57 Mae'r Cyngor wedi egluro, ar ffurf sy'n hawdd ei deall, ei brosesau ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae hynny'n cynnwys cyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer pob un o'i grwpiau allweddol, gan gynnwys y pwyllgorau craffu. Mae llawlyfr, a ddatblygwyd ar gyfer yr aelodau, yn esbonio'n glir ar ffurf lluniau a naratif y berthynas rhwng pwyllgorau a grwpiau. Mae'r llawlyfr hefyd yn nodi'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r aelodau. Caiff y llawlyfr ei ategu gan hyfforddiant sy'n ymdrin ag agweddau eraill hefyd, megis y sgiliau penodol sy'n ofynnol i reoli a chadeirio cyfarfodydd y pwyllgorau. Mae'r aelodau wedi cwblhau hunanasesiad i'w galluogi i asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain ac adnabod anghenion pellach o ran hyfforddiant. Mae'r asesiad hwn wedi arwain at ddatblygu a darparu hyfforddiant arall, er enghraifft ynghylch deall diwylliant a strwythur y sector gwirfoddol, er bod rhagor o waith i'w wneud o hyd.

58 Mae'r rhan fwyaf o'r aelodau yn ymwneud yn fwy helaeth â gweithgarwch y Cyngor. Cafwyd presenoldeb da mewn ystod o weithdai a gynhaliwyd er mwyn ceisio barn a safbwyntiau'r aelodau ynghylch y modd y mae'r Cyngor yn perfformio, beth ddylai ei flaenoriaethau fod ac ar beth y dylid gwario arian y Cyngor. Mae'r aelodau'n cymryd rhan yn y trafodaethau gan ddangos eu gwybodaeth a dangos ymrwymiad i uchelgeisiau'r Cyngor.

59 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi cofrestr lawn o'r cyfarfodydd yr oedd yr aelodau'n bresennol ynddynt yn ystod 2012-13, ac mae hefyd yn cyhoeddi manylion am bresenoldeb mewn pwyllgorau craffu unigol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae hwn yn gam cadarnhaol, ac mae'r ffaith bod y wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn galluogi dinasyddion i lunio barn am gyfranogiad yr aelodau.

60 Erbyn hyn, mae'r Cyngor yn cyhoeddi agendâu cyfarfodydd a'r crynodebau ar gyfer y Tîm Rheoli Corfforaethol ar ei wefan fewnol. Sicrheir rhagor o dryloywder drwy gyhoeddi, ar y rhyngrwyd, y penderfyniadau a wnaed gan y cyfarwyddwyr. Ers cyflwyno'r cofrestrau penderfyniadau, mae'r Cyngor wedi cynyddu lefel y manylder a geir yn y cofrestrau, sy'n golygu eu bod yn gliriach ac yn haws i ddinasyddion eu deall.

61 Rydym wedi sylwi ar welliannau yn effeithiolrwydd y swyddogaeth oruchwylio a chraffu yn y Cyngor. Mae'r aelodau wedi cael gwybodaeth gadarn sydd wedi eu galluogi i holi a herio uwch-swyddogion, penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion, ymgynghorwyr arbenigol ac aelodau'r Cabinet. Mae dulliau o reoli cyfarfodydd yn gwella, ac erbyn hyn mae'n gliriach o lawer pam y mae pob pwnc yn cael ei drafod, pam y mae gerbron y pwyllgorau craffu a pha argymhelliad y mae angen ei wneud. Mae'r ffaith bod cofnod camau gweithredu wedi'i gyflwyno ar gyfer pob pwyllgor wedi helpu i sicrhau nad yw materion yn cael eu colli; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cynnwys yr argymhellion a wnaed gan y pwyllgorau. Er bod yr argymhellion a dderbynnir i'w gweld yn y cofnodion, gall y ffaith nad ydynt yn y cofnod camau gweithredu olygu eu bod yn llai amlwg. Mae angen i'r dulliau o reoli cyfarfodydd ddatblygu ac esblygu ymhellach ar draws pob un o'r pwyllgorau goruchwylio a chraffu er mwyn sicrhau bod gwaith craffu sydd o safon uchel yn gyson yn cael ei gyflawni ym mhob maes gwasanaeth.

62 Mae'r adroddiad er budd y cyhoedd a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Penodedig wedi tynnu sylw at nifer o themâu llywodraethu y bydd angen i'r Cyngor eu hystyried wrth iddo adolygu a diweddaru ei gyfansoddiad. Yn benodol, mae angen:

- ystyried y rhesymau pam y gallai fod angen eithrio adroddiadau rhag bod ar gael i'r cyhoedd;
- egluro pwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol, ac yn benodol egluro dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ffurfiol;
- sicrhau bod yr holl ffactorau a'r holl opsiynau perthnasol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, a bod cyngor cyfreithiol priodol yn cael ei geisio a'i gymryd; ac
- egluro'r amgylchiadau pan ddylai swyddogion ac aelodau ddatgan budd mewn fforymau gwneud penderfyniadau.

63 Mae'n amlwg bod angen i'r Cyngor, ei swyddogion a'i aelodau fyfyrio ynghylch y materion hyn. Bydd y pwysau ariannol cynyddol (a'r ffaith y gallai trefn llywodraeth leol yng Nghymru newid) yn golygu ei bod yn debyg y bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau anodd o ran polisi, ac mae gan bob swyddog a phob aelod rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt cydweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn y dyfodol.

64 Mae'r cyfansoddiad yn faes arall y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arno. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio drwy'r cyfansoddiad enghreifftiol ar gyfer Cymru (a gaiff ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) ac mae wedi sefydlu Gweithgor Cyfansoddiad i ddarparu fersiwn sydd wedi'i theilwra i ofynion penodol y Cyngor. Mae'r dasg hon yn un gymhleth sy'n cymryd llawer o amser ond, yn rhan o'r cymorth y mae'n ei roi i'r Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus i gynnig cyngor arbenigol i'r Cyngor wrth iddo fynd i'r afael â'r prosiect hwn.

## Mae’r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

65 Ar sail y casgliadau a nodwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae’r Archwilydd Cyffredinol o’r farn bod y Cyngor yn debygol o fodloni gofynion y Mesur o safbwynt gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £265 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,154 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £30 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Sir Benfro oedd £944.60 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.15 y cant i £974.36 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 66.1 y cant o dai Sir Benfro yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 60 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 33 Annibynnol ynghyd â
- 4 Plaid Cymru
- 7 Llafur
- 3 Cheidwadwr
- 3 Cynghrair Sir Benfro
- 12 Heb fod yn aelodau o unrhyw blaid.

Prif Weithredwr y Cyngor yw Mr Bryn Parry-Jones. Caiff ei gefnogi gan y canlynol:

- Y Dirprwy Brif Weithredwr: Ben Pykett
- Y Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden: Mark Lewis
- Y Prif Swyddog Cyllid: Jonathan Haswell
- Y Cyfarwyddwr Datblygu: Steven Jones
- Y Cyfarwyddwr Trafnidiaeth a'r Amgylchedd: Ian Westley
- Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol: Jake Morgan
- Y Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Oedolion: Pam Marsden

## Gwybodaeth arall

Aelodau'r Cynulliad dros Sir Benfro yw:

- Paul Davies, Preseli Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Rebecca Evans, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- Simon Thomas, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Plaid Cymru
- Joyce Watson, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Blaid Lafur
- William Powell, Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Benfro yw:

- Stephen Crabb, Preseli Sir Benfro, y Blaid Geidwadol
- Simon Hart, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, y Blaid Geidwadol.

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.pembrokeshire.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yng Nghyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd, SA61 1TP. Ffôn: 01437 764551 neu e-bost: enquiries@pembrokeshire.gov.uk.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd J Adams
Arweinydd
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Annwyl Mr Adams

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol fel yr Archwilydd Penodedig dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau ynghylch adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau sy'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, ac rwyf wedi cwblhau fy marn archwilio a'm tystysgrif. Rwyf wedi tynnu sylw at rai materion y mae angen rhoi sylw iddynt yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau bod trafodion yn rheolaidd ac yn gyfreithlon a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn mynnu fy mod yn:

- darparu barn archwilio am y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y mae'n defnyddio adnoddau; a
- chyflwyno tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r gwaith o archwilio'r cyfrifon.

## Datganiadau ariannol

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu'n unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Cadarnhaodd fy archwiliad o'r datganiadau ariannol fod gan y Cyngor drefniadau da ar gyfer cau'r cyfriflyfr ariannol a pharatoi'r datganiadau ariannol. Fel yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd ansawdd y datganiadau ariannol drafft a'r papurau gwaith i'w hategu yn dda, ac roedd y trefniadau gweithio rhwng staff y Cyngor ym maes cyllid a'm tîm archwilio innau'n dda hefyd.

Llwyddwyd hefyd i ymgysylltu'n gadarnhaol iawn â'r Pwyllgor Archwilio sydd newydd gael ei sefydlu, wrth iddo ddatblygu ei ddealltwriaeth a'i rôl yn ystod y flwyddyn.

Cafodd y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 30 Medi 2013, lle nodais nad oedd modd i mi gwblhau'r archwiliad a darparu barn archwilio oherwydd gwahaniaeth mewn barn gyfreithiol ynghylch penderfyniad y Cyngor i ganiatáu i uwch staff gael swm cyfwerth â chyfraniad pensiwn y cyflogwr pe baent yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cymeradwyodd y Pwyllgor y datganiadau ariannol nad oeddent, ar y pryd, yn cyfeirio at y gwahaniaeth barn hwnnw.

Yn dilyn hynny, cyhoeddais adroddiad er budd y cyhoedd (ar 31 Ionawr 2014) ac ynddo, nodais fy mod o'r farn bod y penderfyniad a wnaed ym mis Medi 2011 yn anghyfreithlon. Bu'r Cyngor yn ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod eithriadol o'r Cyngor ar 14 Chwefror 2014 a derbyniodd yr argymhellion (gan gydnabod bod tynnu'r opsiwn ar gyfer uwch staff yn ôl ac atal unrhyw daliadau yn y dyfodol yn arwain at broblemau'n ymwneud â chontractau).

Mae'r Cyngor wedi derbyn yr adroddiad er budd y cyhoedd a'i argymhellion, ond ym manylion yr adroddiad ceir nifer o faterion llywodraethu y mae angen eu hystyried wrth i'r Cyngor adolygu a diweddaru ei gyfansoddiad. Yn benodol, mae angen:

- ystyried y rhesymau pam y gallai fod angen eithrio adroddiadau rhag bod ar gael i'r cyhoedd;
- egluro pwerau a rhwymedigaethau cyfreithiol, ac yn benodol egluro dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau ffurfiol;
- sicrhau bod yr holl ffactorau a'r holl opsiynau perthnasol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, a bod cyngor cyfreithiol priodol yn cael ei geisio a'i gymryd; ac
- egluro'r amgylchiadau pan ddylai swyddogion ac aelodau ddatgan budd mewn fforymau gwneud penderfyniadau.

Mae'n amlwg bod angen i'r Cyngor, ei swyddogion a'i aelodau fyfyrio ynghylch y materion hyn. Bydd y pwysau ariannol cynyddol (a'r ffaith y gallai trefn llywodraeth leol yng Nghymru newid) yn golygu ei bod yn debyg y bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau anodd o ran polisi, ac mae gan bob swyddog a phob aelod rôl allweddol i'w chwarae o safbwynt cydweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn y dyfodol.

Mae datganiadau ariannol 2012-13 wedi cael eu diwygio erbyn hyn i gynnwys datgeliad priodol, a chawsant ei hailgymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 28 Ebrill 2014. Cyhoeddais fy marn archwilio ar 8 Mai 2014.

## Darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y modd y caiff adnoddau eu defnyddio

Mae'r modd yr wyf wedi ystyried trefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon, gan ddibynnu hefyd ar y gwaith a gyflawnwyd yn rhan o'r Asesiad Gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Er fy mod yn fodlon yn gyffredinol bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith, rwyf wedi nodi rhai materion yn y llythyr hwn y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi tynnu sylw yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle gellid gwneud gwelliannau.

## Rheolaeth ariannol

Nododd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014 fod proses y Cyngor ar gyfer cynllunio strategol yn arfer da neu addawol:

| Enghraifft 4 o arfer da neu addawol: Cyngor Sir Penfro |
| --- |
| Mae'r Cyngor wedi llunio cynllun syml a chryno sy'n amlinellu'r hyn y mae am ei gyflawni a'r modd y bydd yn gwneud hynny. Mae'r cynllun wedi'i ysgrifennu'n dda ac mae'n hawdd ei ddeall. Mae'r Cynllun Gwella yn cysylltu'n dda â'r Cynllun Integredig Sengl a Chynlluniau Gwella Gwasanaeth y Cyngor ar gyfer 2013-2014, a gan fod themâu cyffredin yn rhedeg drwy'r cynlluniau mae'n hawdd bellach cysylltu'r dogfennau â'i gilydd. |

Mae fy adolygiad o reolaeth ariannol, o fewn y trefniadau hyn, yn cadarnhau bod proses glir ar waith ar gyfer pennu cyllidebau, a bod gwaith ymgysylltu â'r aelodau'n digwydd drwy weithdai a thrafodaethau'r pwyllgorau craffu. Mae gwaith monitro yn ystod y flwyddyn wedi gwella hefyd, ac mae gwybodaeth ariannol a gwybodaeth am bennu perfformiad yn cael ei darparu ar yr un pryd at ddibenion craffu.

Fodd bynnag, ceir meysydd o hyd y mae angen eu hystyried, ac maent yn cynnwys y canlynol:

- dangos cysylltiadau cliriach rhwng data am berfformiad a data ariannol; a
- chyflwyno adroddiadau'n fwy rheolaidd ynghylch y modd y caiff arian wrth gefn ei symud a'i ddefnyddio, yn enwedig pan gaiff newidiadau sylweddol eu gwneud i gronfeydd wrth gefn ar ôl cau datganiadau ariannol y flwyddyn flaenorol.

## Tystysgrif archwilio

Cafodd fy nhystysgrif archwilio, a oedd yn cadarnhau fy mod i wedi cwblhau'r gwaith o archwilio cyfrifon y Cyngor yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ei chyflwyno ar 8 Mai 2014.

Yn ystod y cam cynllunio, y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 oedd £143,221. Fel y nodwyd uchod, bu'n rhaid i mi gyflawni gwaith ychwanegol a arweiniodd at lunio'r adroddiad er budd y cyhoedd. Mae'r gwaith ychwanegol hwnnw wedi costio tua £25,000, sy'n ffi ychwanegol a godir ar y Cyngor. Byddaf yn trafod y ffi archwilio derfynol â'r Prif Swyddog Cyllid ac yn adrodd yn ei chylch wrth y Pwyllgor Archwilio.

Yr eiddoch yn gywir

**Richard Harries**

Ar ran yr Archwilydd Penodedig
11 Mehefin 2014

cc Mr B Parry-Jones, Y Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro
Mr J Haswell, Y Prif Swyddog Cyllid, Cyngor Sir Penfro

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Penfro

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei *Gynllun Gwella* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.pembrokeshire.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Amcanion gwella 2013-14 |
|---|
| **AG1 – Gwella Ysgolion**<br>Byddwn yn gwella canlyniadau dysgu i helpu plant a phobl ifanc gyrraedd eu llawn allu. |
| **AG2 – Gwella Canol Trefi**<br>Byddwn yn galluogi, hwyluso a chyflawni cynlluniau i wella hyfywedd a bwrlwm canol ein trefi. |
| **AG3 – Rheoli Gwastraff**<br>Byddwn yn dal i gynyddu cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu er mwyn lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi. |
| **AG4 – Adolygu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion**<br>Byddwn yn ad-drefnu darpariaeth ein gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion er mwyn gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd. |
| **AG5 – Diogelu**<br>Byddwn yn cryfhau ein trefniadau diogelu mewn ysgolion er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc mewn perygl. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn ei ddogfen sy'n dwyn y teitl *Adolygiadau Gwelliannau 2012/2013* sydd i'w gweld hefyd ar wefan y Cyngor yn www.pembrokeshire.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk